**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**22/09/2023**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2023/24 - Adolygiad Diwedd Awst 2023.

**Awdur:** Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)
Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm refeniw gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2023, i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol. Mae hefyd yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig fel ag ar ddiwedd Awst 2023.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**Gofynnir i'r Bwrdd:-**

**2.1 Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Awst 2023 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1).**

**2.2 Nodi a derbyn diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**

**2.3 Cytuno ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3).**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £266,683 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2023/24 sydd yn bennaf oherwydd llwyddiant y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda'u cais Cronfa Ffyniant Gyffredin rhanbarthol. Bydd y tanwariant terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r swm a hawlir o grant y fargen dwf a'r gronfa a glustnodir.

3.2 Nodi llithriad pellach ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £7.13m yn 2023/24 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £11.25m ar gyfer y flwyddyn.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2023/24.

4.2 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2023/24, a chyflwynir adroddiad chwarter tri i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais ym mis Ionawr 2024.

**Refeniw**

**5. Gwariant ac incwm yn 2023/24**

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2023, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 yn danwariant o £266,683.

5.3 Cymeradwywyd y trosglwyddiad unwaith ac am byth o £148,000 gan y Bwrdd ym mis Mai 2023 fel rhan o'r adroddiad alldro ar gyfer 2022/23.

Swyddfa Rheoli Portffolio

5.4 Bydd y gorwariant net o £42,000 a ragwelir ar gyfer y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn cael ei ariannu'n bennaf o incwm Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a dderbynnir ar gyfer secondiad staff ac a ddangosir yn y rhan incwm.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.5 Disgwylir i'r gwariant o dan bennawd y Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol fod o fewn y gyllideb ar gyfer 2023/24.

Cyd-bwyllgor

5.6 Mae tanwariant o £5,000 ar y pennawd Cyd-bwyllgor ac mae hyn ar Ffioedd Cyllidol Allanol.

Prosiectau

5.7 Mae'r pennawd Prosiectau yn dangos tanwariant net o £44,504, ac mae hyn yn sgil llithriad ar y rhaglen gyfalaf.

Cynlluniau Grant

5.8 Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys ffioedd ymgynghorwyr allanol yn ogystal â thîm cymorth mewnol i gyflawni'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol, ac mae'r gwariant hwn yn cael ei ariannu gan grant penodol gan Lywodraeth Cymru.

Cyfraniadau Ariannu

5.9 Mae'r ffrydiau incwm ar gyfer 2023/24 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grant ESF, dyraniad refeniw Grant Bargen Twf Gogledd Cymru, Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (secondiad staff), grant Ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG a'r gronfa wrth gefn.

5.10 Mae cais grant terfynol ESF bellach wedi'i gwblhau ac roedd hyn ar gyfer y gwariant hyd at ddiwedd Mehefin 2023.

5.11 Mae llwyddiant y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda'u cais rhanbarthol am y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi arwain at amcangyfrif o warged ar ddiwedd y flwyddyn. Felly, yn hytrach na thynnu i lawr y swm o £1,022,000 a gyllidebwyd o'r fargen dwf a £274,100 o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd, awgrymir bod swm gostyngedig yn cael ei hawlio (gyda'r union ffigwr i'w gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn) a fyddai wedyn yn gadael sefyllfa niwtral i'r Bwrdd am y flwyddyn.

Cronfeydd Wrth Gefn y Bwrdd Uchelgais

5.12 Mae Atodiad 2 yn dangos y balansau wrth gefn agoriadol ar gyfer y flwyddyn, a'r balansau a amcangyfrif ar 31 Mawrth 2024.

5.13 Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol a glustnodwyd, ar 31 Mawrth 2023 oedd £552,027, ac mae £274,100 o'r gronfa wrth gefn hon wedi'i ddyrannu yng nghyllideb 2023/24 i roi amcangyfrif o falans o £277,927 ar 31 Mawrth 2024.

5.14 Balans y gronfa prosiectau wrth gefn ar 31 Mawrth 2023 oedd £152,300.

5.15 Caiff y gronfa llog wrth gefn ei ddiogelu i ariannu cost benthyca yn y dyfodol. Ei balans ar 31 Mawrth 2023 oedd £1,667,882, a bydd cyfraniadau llog partneriaid o £251,040 ar gyfer 2023/24 yn cael eu hychwanegu i'r gronfa wrth gefn i roi amcangyfrif balans o £1,918,922 ar 31 Mawrth 2024. Bydd y llog ar y balans wrth gefn hwn ynghyd â'r llog ar y grant cyfalaf yn cael eu hychwanegu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn sgil y balans grant cyfalaf o tua £50m ynghyd â'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn y misoedd diwethaf, bydd hyn dros £2m ar gyfer eleni.

**Cyfalaf**

5.16 Mae Atodiad 3 yn dangos y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2023, ac mae'n cynnwys y pum prosiect newydd (Anturiaethau Cyfrifol, Stiwdio Kinmel, Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy, Hwb Hydrogen Caergybi a Phorth Wrecsam) a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023. Mae hefyd yn dangos bod grant y fargen dwf a ddyrannwyd i ariannu gwariant refeniw yn £5.15m (2.15%). Cymeradwyodd y Bwrdd ym mis Mai 2023 i gynyddu'r dyraniad o 1.5% i 2% ac yna cymeradwywyd cynnydd pellach i 2.15% gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023.

5.17 Mae gostyngiad o £4.12m yn y gwariant disgwyliedig ar gyfer 2023/24 ac mae hyn oherwydd llithriad ar dri phrosiect (Cysylltu ychydig ganrannau olaf, Porth Caergybi a chyn Ysbyty Gogledd Cymru).

5.18 Yn seiliedig ar y proffil gwariant diwygiedig hwn, bydd grant y fargen twf yn ddigonol i ariannu'r rhaglen gyfalaf am y dair blynedd gyntaf, ac nid oes angen benthyca allanol tan 2024/25. Mae hyn hefyd yn seiliedig ar y Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau i dderbyn yr incwm blynyddol o £20.4m o grant y fargen twf.

## 6. Goblygiadau Staffio

6.1 O ganlyniad i nifer o swyddi gwag yn ystod y misoedd diwethaf yn ogystal â'u llwyddiant gyda chais rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio bellach yn adolygu eu strwythur staffio. Mae'r amcangyfrif o'r sefyllfa alldro ar gyfer 2023/24 yn adlewyrchu'r recriwtio disgwylir fydd yn ddigwydd dros y misoedd nesaf.

## 7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

7.1 Cyflwynwyd atodiadau'r adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 8 Medi 2023.

## 8. Atodiadau

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2023/24 - Adolygiad Diwedd Awst 2023

Atodiad 2 - Cronfeydd y BUEGC

Atodiad 3 - Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2023/24 - Adolygiad Diwedd Awst 2023

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

   Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

   Awdur yr adroddiad hwn.